



Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1 NA

7 Tachwedd 2014

Annwyl Glerc

Egwyddorion Cyffredinol y Bil Cynllunio (Cymru): tystiolaeth ysgrifenedig

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd fel rhan o'i ymchwiliad i egwyddorion cyffredinol y Bil Cynllunio drafft.

Cyd-destun

Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Caiff y Comisiynydd ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith, ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â safonau.

Un o flaenoriaethau'r Comisiynydd yw craffu ar ddatblygiadau polisi o ran y Gymraeg. Felly, prif rôl y Comisiynydd yw darparu sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio.

1. Cynllunio – cyd-destun

- 1.1 Sail y gyfundrefn gynllunio yng Nghymru yw deddfau a wnaed yn San Steffan, megis Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Caiff y deddfau hyn eu hategu gan reoliadau ac is-ddeddfwriaeth a wnaed yn y Cynulliad ac yn San Steffan. Mae'r Bil Cynllunio (Cymru) drafft yn ymgais i symleiddio'r gyfundrefn ddeddfwriaethol gymhleth hon.
- 1.2 Yng Nghymru, rhaid i bob awdurdod cynllunio baratoi cynllun datblygu lleol ar gyfer ei ardal. Mae hynny'n ofyniad statudol yn deillio o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Y cynlluniau hyn sy'n cynnig sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau ac apelau cynllunio unigol. Mae'n ofynnol bod awdurdodau cynllunio yn gwneud penderfyniadau yn unol â'r cynlluniau datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall.
- 1.3 Caiff polisiâu defnydd tir Llywodraeth Cymru eu hamlinellu ym *Mholisi Cynllunio Cymru 2012* a chaiff y polisi ei ategu gan gyfres o nodiadau cyngor technegol sy'n rhoi arweiniad ar faterion penodol. Wrth baratoi eu cynlluniau datblygu dylai awdurdodau lleol ystyried y polisi cynllunio cenedlaethol a'r nodiadau cyngor technegol, ond nid yw hynny'n golygu bod gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i'w gweithredu.

2. Cynllunio a'r Gymraeg

- 2.1 Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, *Iaith Fyw: Iaith Byw 2012-2017*, yn datgan bod y system gynllunio yn ddull pwysig ar gyfer rheoli newid mewn cymunedau ac mae polisi cynllunio'r Llywodraeth yn datgan bod y Gymraeg yn rhan o waed cymdeithasol Cymru.
- 2.2 Caiff materion polisi economaidd megis gwaith a thai effaith ar gynaliadwyedd cymunedau ac mae cynaliadwyedd y Gymraeg yn fater sydd angen rhoi sylw iddo yn y cyd-destun hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod dylanwad y gyfundrefn



gynllunio defnydd tir ar gymunedau Cymraeg ym *Mholisi Cynllunio Cymru*. Er enghraifft mae adran 4.13 y Polisi yn datgan:

“Dylai pob awdurdod cynllunio lleol ystyried a oes ganddynt gymunedau lle y mae’r defnydd o’r Gymraeg yn rhan o’r gwedd cymdeithasol a, lle y mae hynny’n wir, mae’n briodol ystyried hynny wrth lunio polisiau defnydd tir.”

2.3 Ymhellach i hynny, mae’r Polisi hefyd yn datgan:

“Dylai fod yn nod gan awdurdodau cynllunio lleol ddarparu ar gyfer tai sydd wedi eu dosbarthu’n eang ac sy’n cael eu datblygu’n raddol, gan ystyried gallu’r gwahanol ardaloedd a’r cymunedau i gymathu’r datblygiad heb erydu safle’r Gymraeg”.

2.4 Mae cyfeiriadau eraill at y Gymraeg yn y Polisi hefyd er enghraifft ynghylch gallu ardaloedd i ymdopi â mwy o dai a’r effaith ar y Gymraeg wrth benderfynu pa safleoedd i’w neilltuo ar gyfer tai.

2.5 Y ddogfen sy’n rhoi cyngor ac arweiniad i awdurdodau lleol ar sut i wneud hynny yw Nodyn Cyngor Technegol 20 (NCT20). Fe gyhoeddwyd fersiwn newydd o’r ddogfen yn Hydref 2013 ac mae’n amlinellu fframwaith ar gyfer pryd i ystyried y Gymraeg. Cafodd canllaw ymarferol pellach sy’n ategu NCT20 ei gyhoeddi ym mis Mehefin eleni. Yn ôl NCT20, dylai’r system cynllunio defnydd tir *“lle bo hynny’n ymarferol ac yn berthnasol gyfrannu at les y Gymraeg yn y dyfodol trwy greu’r amodau fyddai’n caniatáu i gymunedau cynaliadwy ffynnu”*.

3. Diffygion o ran lle’r Gymraeg yn y gyfundrefn gynllunio

3.1 Er bod cyfeiriadau at y Gymraeg yn y polisi cynllunio cenedlaethol, yn wahanol i agweddau eraill o’r gyfundrefn gynllunio, nid yw’n ofyniad statudol ar awdurdodau i roi ystyriaeth i’r Gymraeg. Er enghraifft, mae adran 62 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gynnal **arfarniad o gynaliadwyedd** y cynllun datblygu a pharatoi adroddiad ar y canfyddiadau. Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 yn ymgorffori cyfarwyddeb gan yr Undeb Ewropeaidd ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gynnal **asesiad amgylcheddol ffurfiol** wrth lunio rhai cynlluniau a rhaglenni penodol. Nid oes gofyniad statudol cymharol ar gyfer cynnal asesiad o effaith ar y Gymraeg.

3.2 Mae’r broses o ystyried y Gymraeg yn y gyfundrefn gynllunio felly yn ddibynnol ar bolisi a chanllawiau. Cyn i’r Nodyn Cyngor Technegol 20 newydd gael ei gyhoeddi yn Hydref 2013, fe gynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg astudiaeth o’r ystyriaeth a roddwyd i’r Gymraeg gan awdurdodau cynllunio wrth iddynt lunio eu cynlluniau datblygu.

3.3 Gofynnwyd tri chwestiwn i awdurdodau cynllunio fel rhan o’r astudiaeth:



- a oeddynt wedi cynnal asesiad o effaith eu cynllun datblygu lleol neu unedol ar y Gymraeg
- a oedd ganddynt ganllaw cynllunio atodol ar y Gymraeg
- a oeddynt wedi cynnal asesiad o effaith ceisiadau unigol ar y Gymraeg

3.4 Ymatebodd 23 o'r 25 awdurdod i'r astudiaeth ac roedd y canfyddiadau yn awgrymu nad oedd y Gymraeg yn cael ei hystyried yn gyson o dan y gyfundrefn gynllunio ac nad oedd pob awdurdod wedi ystyried y Gymraeg wrth lunio ei gynllun datblygu. Amlygwyd hefyd amrywiaeth sylweddol yng nghynnwys a manylder polisiau awdurdodau ar y Gymraeg a gwahaniaethau yn y drefn ar gyfer sut a phryd i gynnal asesiad effaith ieithyddol.

3.5 Mae fersiwn newydd o NCT20 wedi ei gyhoeddi ers yr astudiaeth a chanllawiau ymarferol pellach ar gael i awdurdodau. Er hynny, mae'n ymddangos bod nifer fawr o awdurdodau eisoes wedi mabwysiadu eu cynlluniau datblygu a rhai eraill wedi mynd yn rhy bell yn y broses i allu rhoi ystyriaeth lawn i'r canllawiau newydd. Roedd cynlluniau datblygu 14 o'r 25 awdurdod cynllunio wedi eu mabwysiadu cyn i'r canllaw ymarferol ar y Gymraeg gael ei gyhoeddi gan y Llywodraeth ym Mehefin 2014.


3.6 Mae'r NCT20 newydd hefyd yn rhoi'r pwyslais ar asesu effaith ieithyddol ar y cynllun datblygu yn unig. Er ei bod yn rhesymol i'r prif gynllun fod yn destun asesiad effaith trylwyr, dylai awdurdodau cynllunio gael yr hyblygrwydd i gynnal asesiad o effaith ceisiadau unigol ar y Gymraeg hefyd o dan rhai amgylchiadau. Nid yw hynny'n cael ei gefnogi gan y canllawiau newydd.

3.7 Mae tystiolaeth yn awgrymu felly bod cynllunwyr wedi bod yn gyndyn i ddilyn canllawiau cynllunio ar y Gymraeg hyd yma a bod nerfusrwydd ynghylch cymryd penderfyniadau ar sail asesiadau effaith ieithyddol. Mae'n debyg mai rhan o'r rheswm am hynny yw bod y Gymraeg yn destun arweiniad anstatudol, yn hytrach na chyfarwyddyd cadarn drwy ddeddfwriaeth.

3.8 Ceir blas o hynny yn adroddiad "Y Gymraeg yn Sir Gar" a gyhoeddwyd gan weithgor o'r Cyngor Sir ym Mawrth 2014. Yn ôl adran 3.2 yr adroddiad:


"Nid yw'r fethodoleg a chanllawiau presennol (mewn perthynas â'r Gymraeg) i awdurdodau cynllunio lleol ar asesu effaith datblygu a gosod mesurau lliniaru yn ddigonol ac mae angen llunio methodoleg safonol genedlaethol i gefnogi awdurdodau lleol."

Ymhellach i hynny, mae argymhelliad 22 yr adroddiad yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys y Gymraeg fel ystyriaeth "materol" yn rhan o'r Bil Cynllunio.



4. Bil Cynllunio (Cymru) drafft

- 4.1 Mae'r Bil Cynllunio yn cynnig cyfle unigryw i ddatrys y diffyg ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg yn y gyfundrefn gynllunio ar hyn o bryd. Mae angen sylfaen i'r broses asesu effaith ieithyddol mewn deddf. Nid yw'r gyfundrefn gyfredol o bolisi a chanllaw wedi gweithio hyd yma ac mae'n annhebygol y bydd y NCT20 newydd yn effeithio rhyw lawer ar hynny.
- 4.2 Nid oes unrhyw gyfeiriad at y Gymraeg yn y Bil ar hyn o bryd (ac eithrio un cyfeiriad technegol yn yr atodlenni). Mae hynny'n colli cyfle i roi'r un statws i'r Gymraeg ac sy'n bodoli eisoes i feysydd megis cynaliadwyedd ac amgylchedd.
- 4.3 Mae'r Llywodraeth wedi dadlau yn erbyn cynnwys y Gymraeg yn y Bil Cynllunio ar sail mai deddfwriaeth strwythurol a fframweithiol ydyw, a'r Gymraeg yn fater polisi. Ond yn ein barn ni, rhesymau strwythurol sydd i gyfrif am yr angen i gynnwys y Gymraeg yn y Bil. Mae angen fframwaith asesu effaith ar y Gymraeg mewn deddf yn hytrach na'i fod yn ddibynnol ar ganllawiau. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod risg uchel na fydd cyfundrefn canllawiau yn cael ei gweithredu.
- 4.4 Er nad oes cyfeiriadau at y Gymraeg yn y Bil, mae sawl cyfeiriad yn y Memorandwm Esboniadol cysylltiedig. Er enghraifft, mae adran 1 y memorandwm yn cychwyn gyda datganiad y bydd darpariaethau'r Bil yn creu lleoedd cynaliadwy fydd yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Ceir cyfeiriad at y Gymraeg hefyd yn adran 3 ar nod y Bil:
- “darparu system gynllunio sy'n gweithredu mewn modd cadarnhaol ac yn galluogi datblygiadau, gan helpu i ddarparu manau cynaliadwy sy'n cynnwys cartrefi, swyddi a seilwaith, tra'n cynnig cyfleoedd i ddiogelu a gwella ein hamgylcheddau adeiledig a naturiol pwysicaf a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg”*
- Nid yw'n eglur sut fydd y Bil yn llwyddo i gyflawni'r amcanion uchod os nad yw'n cynnwys unrhyw ddarpariaethau penodol ar gyfer ystyried y Gymraeg yn y gyfundrefn gynllunio.
- 4.5 Mae'r gyfundrefn newydd a gynigir yn y Bil yn cynnig strwythur sy'n cynnwys Fframwaith Datblygu Cenedlaethol; Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Golyga hynny y bydd cynlluniau datblygu ar ddefnydd tir ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol am y tro cyntaf. Rydym eisoes wedi cyfeirio at yr angen i osod fframwaith statudol yn ei le ar gyfer ystyried y Gymraeg mewn cynlluniau datblygu lleol, dylai hynny ddigwydd ar gyfer cynlluniau rhanbarthol a chenedlaethol hefyd.
- 4.6 Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer “datblygiadau cenedlaethol eu harwyddocâd” a'r angen am “adroddiadau effaith lleol”. Dyma enghraifft felly o'r Bil yn gwneud darpariaeth newydd ar gyfer asesu effaith lleol datblygiadau mawr, a



hynny drwy ddiwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'n siomedig nad yw'r Bil fel mae'n sefyll yn gwneud darpariaeth newydd ar gyfer asesu effaith ieithyddol yn yr un modd.

4.7 Ymatebodd y Comisiynydd i ymgynghoriad "Cynllunio Cadarnhaol" Llywodraeth Cymru ar bapur gwyn y Bil Cynllunio yn Chwefror eleni. Roedd yr ymateb yn cynnwys nifer o'r dadleuon sydd yn y ddogfen hon. Fel rhan o'r ymateb, cynigiwyd rhai gwelliannau posibl i'r Bil drafft. Enghreifftiau a syniadau cychwynnol oeddynt, ond y bwriad oedd cynnig gwelliannau a fyddai'n:

- Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru asesu effaith y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar y Gymraeg
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol / paneli cynllunio strategol i asesu effaith Cynlluniau Datblygu Strategol ar y Gymraeg
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol i asesu effaith Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Gymraeg
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio gynnwys asesiad o'r effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r asesiad effaith lleol o ddatblygiadau cenedlaethol eu harwyddocâd.

Fel rhan o'r gwelliannau hyn, dylid hefyd sicrhau bod gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd i gynnal asesiad effaith ieithyddol ar ddatblygiadau unigol pan fo angen. Er ein bod yn cefnogi'r egwyddor o asesu effaith wrth lunio cynlluniau datblygu, bydd amgylchiadau'n codi gyda rhai ceisiadau unigol ble bydd angen asesiad penodol o'r effaith ar y Gymraeg.

4.8 Yn olaf dylid nodi bod ein sylwadau wedi eu cyfyngu i'r prif faterion sydd angen eu cryfhau drwy ddeddfwriaeth y Bil Cynllunio. Mae agweddau eraill ym maes y Gymraeg a chynllunio sy'n bwysig a sydd angen eu hystyried ymhellach, megis y Gymraeg mewn arwyddion ac enwau datblygiadau ac amcanestyniadau poblogaeth sy'n arwain at dargedau datblygu tai.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Diolch am y cyfle i gynnig sylwadau i ymchwiliad y Pwyllgor ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Nodaf hefyd fy mod yn fodlon rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor os yw'n dymuno.

Yn gywir

Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Astudiaeth o bolisiâu cynllunio lleol a'r Gymraeg

Medi 2013

Cefndir

Mewn ymateb i'r trafodaethau sydd wedi bod yn ddiweddar ar ddiwygio Nodyn Cyngor Technegol 20, penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg gynnal astudiaeth o bolisiau cynllunio lleol a'r Gymraeg. Nod yr astudiaeth oedd asesu i ba raddau mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried o dan y gyfundrefn gynllunio cyfredol.

Cynhaliwyd yr astudiaeth mewn dau gam. Yn gyntaf, ysgrifennwyd at y 25 awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru yn ystod Mehefin 2013 yn gofyn tri chwestiwn:

- o a oedd ganddynt ganllaw cynllunio atodol ar y Gymraeg;
- o a oeddynt wedi cynnal asesiad o effaith eu cynllun datblygu lleol neu unedol ar y Gymraeg; ac
- o a oeddynt wedi cynnal asesiad o effaith ceisiadau unigol ar y Gymraeg.

Erbyn diwedd Medi roedd 23 o'r 25 awdurdod wedi ymateb.¹

Ymhellach i hynny ac fel ail gam, yn ystod Awst a Medi 2013 fe ystyriwyd pa bolisiau ar y Gymraeg oedd yn gynwysedig yng nghynlluniau datblygu y 25 awdurdod.

Mae crynodeb o'r canfyddiadau isod.

Polisiau ar y Gymraeg mewn cynlluniau datblygu lleol neu unedol

Roedd astudiaeth o gynlluniau datblygu cyfredol ac arfaethedig awdurdodau cynllunio yn dangos mai 14 o'r 25 awdurdod cynllunio oedd wedi cynnwys polisiau am y Gymraeg yn eu cynlluniau. Roedd hyn yn cynnwys 11 cyngor sir a'r 3 pharc cenedlaethol.

Gwelwyd fod patrwm daearyddol i'r awdurdodau a oedd wedi cynnwys polisiau ar y Gymraeg. Roedd pob awdurdod yng ngogledd a chanolbarth Cymru wedi datblygu polisi ynghyd ag awdurdodau de-orllewin Cymru² ac eithrio Abertawe.

Roedd rhai o'r awdurdodau nad oedd yn cynnwys polisiau am y Gymraeg yn eu cynlluniau datblygu, megis Pen-y-bont a Thorfaen, yn dweud eu bod wedi rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg ond wedi dod i'r casgliad fod y defnydd yn eu cymunedau'n isel ac na fyddai polisiau cynllunio a datblygu yn debygol o gael unrhyw effaith pellach ar y defnydd.

Canfuwyd fod y polisiau a oedd yn bodoli ar y Gymraeg yn amrywio'n sylweddol. Gellir egluro rhywfaint ar y gwahaniaeth hynny oherwydd bod rhai awdurdodau yn parhau i

¹ Yr unig awdurdodau i fethu darparu gwybodaeth oedd Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Blaenau Gwent.

² H.y. Cyngor Sir Benfro; APC Arfordir Penfro; Cyngor Sir Gaerfyrddin; a Chyngor Castell Nedd Port Talbot.

weithredu cynllun datblygu unedol ac eraill wedi symud ymlaen i fabwysiadu cynllun datblygu lleol. Er hynny, roedd gwahaniaethau sylweddol yn bodoli hefyd yn y polisiau ar y Gymraeg mewn cynlluniau datblygu lleol.

Er enghraifft, roedd **Polisi Datblygu 18 Cynllun Datblygu Lleol awdurdod parc cenedlaethol Eryri** yn rhoi cyfarwyddyd manwl. Roedd yn datgan yn eglur y gellid 'Gwrthod datblygiad fyddai, oherwydd ei faint, graddfa neu leoliad, yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned.' Roedd yn cynnig cyfarwyddyd pellach ar y math o asesiad a fyddai'n ofynnol i ymgeiswyr ei gyflwyno o dan wahanol amgylchiadau, gan gynnwys 'Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol' i'w gyflwyno gyda chais cynllunio am ddatblygiad llai, ac 'Asesiad mwy manwl ar ffurf "Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol"' i'w gyflwyno gyda chais cynllunio ble fo datblygiad ar raddfa fwy. Roedd y polisi hefyd yn diffinio'r gwahanol raddfeydd datblygu.

Roedd **Polisi GDP1 Cynllun Datblygu Unedol Cyngor Wrecsam** yn llai manwl ac yn datgan dylai pob datblygiad newydd, 'ystyried yr angen i warchod yr ardaloedd hynny sydd â hunaniaeth Gymraeg gref o ran diwylliant neu iaith rhag datblygiad a allai niweidio'r hunaniaeth hon'. Er hynny, roedd hefyd yn diffinio'r ardaloedd hynny ble ystyriwyd y Gymraeg yn rhan o'r wead cymdeithasol.³

Roedd polisiau rhai awdurdodau fel Wrecsam (uchod) a Phowys yn enwi'r ardaloedd ble ystyriwyd y Gymraeg yn rhan o'r wead cymdeithasol, ond roedd eraill fel cyngor sir Benfro, awdurdod parc cenedlaethol Arfordir Penfro ac awdurdod parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gosod trothwy ar gyfer diffinio ble roedd y Gymraeg yn rhan o'r wead cymdeithasol. Yn achos cyngor sir Benfro ystyriwyd bod cymunedau gyda 25% neu fwy o siaradwyr Cymraeg yn rhan o'r diffiniad, yn achos awdurdod parc cenedlaethol Arfordir Penfro ac awdurdod parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog 30% oedd y trothwy.⁴

Rhodddai rhai awdurdodau fel Castell Nedd Port Talbot arweiniad ynghylch penawdau asesiad effaith ieithyddol yn y polisi ei hun gan gyfeirio hefyd at ganllaw cynllunio atodol ar y Gymraeg a fyddai'n rhoi cyngor pellach i ddatblygwyr.

Roedd awdurdodau eraill yn cynnwys polisiau yn eu cynlluniau datblygu ar faterion ehangach yn ymwneud â'r Gymraeg. Er enghraifft roedd rhai awdurdodau yn cynnwys polisi ar annog arwyddion dwyieithog gan ddilyn y canllaw yn Nodyn Cyngor Technegol 20 ac eraill yn cynnwys datganiadau am enwau datblygiadau a strydoedd yn Gymraeg.

³Mae'r term 'wead cymdeithasol' yn deillio o Nodyn Cyngor Technegol 20 (2000). O dan y pennawd 'Cynlluniau Datblygu Unedol', roedd gofyn i awdurdodau cynllunio ystyried a oedd ganddynt ardaloedd ble mae defnydd o'r Gymraeg yn rhan o'r wead cymdeithasol.

⁴Roedd y ddogfen Cynllunio a'r Iaith Gymraeg; y ffordd ymlaen a gyhoeddwyd gan gonsortia o sefydliadau yn 2005 yn cynnig 20% fel trothwy. Mae rhai awdurdodau cynllunio wedi defnyddio a datblygu'r fethodoleg a gynigir yn y ddogfen wrth lunio eu polisiau cynllunio ar y Gymraeg.

Yn gyffredinol, roedd yr asesiad o bolisiau yn amlygu amrywiaeth eang ac anghysondeb yn yr ymdriniaeth a roddir i'r Gymraeg mewn gwahanol ardaloedd. Er bod rhywfaint o wahaniaethau lleol yn ddisgwyliedig, mae'n bosibl bod yr anghysondeb yn adlewyrchu diffyg eglurder yn y polisi cenedlaethol tuag at y Gymraeg.

Canllaw Cynllunio Atodol ar y Gymraeg

Mae rhai polisiau ar y Gymraeg mewn cynlluniau datblygu yn cyfeirio at ganllaw atodol. Ceir gwybodaeth bellach yn y canllawiau hyn ynghylch sut a phryd i gynnal asesiad effaith ieithyddol. O'r 23 ymateb a gafwyd i lythyr y Comisiynydd, ymatebodd pum awdurdod i ddweud bod ganddynt ganllaw atodol gweithredol ar y Gymraeg⁵ ac ymatebodd pedwar arall i ddweud eu bod yn y broses o ddrafftio canllaw.

O'r 14 Awdurdod oedd wedi datblygu polisi ar y Gymraeg yn eu cynllun datblygu (gweler yr adran flaenorol), roedd pedwar wedi datgan nad oedd ganddynt ganllaw cynllunio atodol ar y Gymraeg ac un arall heb gyfrannu tuag at yr astudiaeth.

Asesiadau o effaith cynlluniau datblygu ar y Gymraeg

Gofynnwyd i'r awdurdodau a oeddynt wedi cynnal asesiad o effaith eu cynlluniau datblygu ar y Gymraeg ers cyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol 20 yn y flwyddyn 2000. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae dwy brif gyfundrefn wedi eu meithrin, yn gyntaf cynlluniau datblygu unedol ac yn fwy diweddar, cynlluniau datblygu lleol sy'n raddol ddisodli'r cynlluniau unedol.

Daeth i'r amlwg mai ychydig iawn o ystyriaeth a roddwyd i'r Gymraeg yn gyffredinol yn ystod y broses o lunio cynlluniau datblygu unedol. Dim ond dau awdurdod adroddodd i sicrwydd bod asesiad ar y Gymraeg wedi digwydd. Roedd y sefyllfa gyda Chynlluniau Datblygu Lleol yn fwy cadarnhaol gyda chwe awdurdod yn adrodd eu bod wedi cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg a thri arall yn adrodd bod asesiad ar y gweill fel rhan o'r broses o lunio Cynllun Datblygu. Er hynny, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gwahaniaethau yn y dull o gynnal asesiad.

Adroddodd chwe awdurdod arall eu bod wedi cynnal asesiad elfennol o'r Gymraeg fel rhan o drefniant arall, megis asesiad cynladwyedd neu asesiad effaith amgylcheddol. Yn olaf, adroddodd chwe awdurdod nad oeddynt wedi cynnal unrhyw asesiad o effaith eu cynllun datblygu ar y Gymraeg. Mae'r canfyddiad yma yn codi amheuan ynghylch y graddau yr

⁵Cynghorau Ynys Môn; Gwynedd; Wrecsam a Chastell Nedd Port Talbot ac awdurdod parc cenedlaethol Eryri

ystyriwyd Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 20 (2000) wrth i'r awdurdodau yma lunio eu cynlluniau datblygu. Mae'r canfyddiadau hefyd yn codi cwestiynau ynghylch rôl yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n gyfrifol am arolygu cynlluniau datblygu a sicrhau eu bod yn cydfynd gyda pholisi cenedlaethol cyn iddynt gael eu mabwysiadu. 4

Asesiadau o effaith ceisiadau cynllunio unigol ar y Gymraeg

Gofynnwyd i'r awdurdodau a oeddynt wedi cynnal asesiadau o effaith ceisiadau cynllunio unigol ar y Gymraeg ers cyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol 20. Gofynnwyd am amlinelliad o faint o asesiadau a gynhaliwyd hefyd.

Roedd yr wybodaeth a gafwyd yn amrywio o atebion cryno a oedd yn egluro a gynhaliwyd unrhyw asesiadau ai peidio, i atebion llawn a oedd yn cynnwys copiâu o asesiadau. Adroddodd wyth awdurdod eu bod wedi cynnal asesiadau. O'r rheini, dim ond tri oedd yn adrodd eu bod wedi cynnal mwy nag un neu ddau o asesiadau, gydag un awdurdod arall yn cydnabod nad oedd yn cadw gwybodaeth ynghylch nifer yr asesiadau. Er bod y dystiolaeth yn anghyflawn, roedd yn ymddangos fod cynnydd bychan wedi bod yn y nifer o asesiadau a gynhaliwyd yn y blynyddoedd diwethaf.

Roedd y nifer o awdurdodau a oedd wedi gofyn am asesiadau effaith ieithyddol gan ymgeiswyr yn is na'r nifer oedd wedi cynnwys polisiau ar y Gymraeg yn eu cynlluniau datblygu. Gellir egluro hynny i raddau gan fod rhai o'r polisiau yn gymharol newydd, ond mae'n codi cwestiwn ynghylch i ba raddau caiff polisiau ar y Gymraeg mewn cynlluniau datblygu eu gweithredu gan rhai awdurdodau.

Prif gasgliadau'r astudiaeth

1. Nid yw'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn gyson o dan y gyfundrefn gynllunio cyfredol.
2. Nid yw pob awdurdod cynllunio wedi ystyried y Gymraeg wrth lunio ei gynllun datblygu. Mae hynny'n awgrymu nad yw pob awdurdod wedi gweithredu yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru⁶ a Nodyn Cyngor Technegol 20 (2000).
3. Mae amrywiaeth ac anghysondeb yng nghynnwys a manylder y polisiau ar y Gymraeg mewn cynlluniau datblygu ac yn sgil hynny mae gwahaniaethau yn y drefn ar gyfer sut a phryd i gynnal asesiad effaith ieithyddol. Mae hynny'n awgrymu diffyg eglurder yn y polisi cenedlaethol.

⁶Mae adran 4.13 Polisi Cynllunio Cymru yn egluro'r disgwyliadau ar gyfer ystyried y Gymraeg.

4. Mae amrywiaeth ac anghysondeb yn y pynciau atodol mewn perthynas â'r Gymraeg a ystyrir mewn cynlluniau datblygu. Mae rhai cynlluniau yn cynnwys polisiau am arwyddion dwyieithog ac eraill yn cynnwys polisiau am enwau datblygiadau. Unwaith eto, mae hynny'n awgrymu diffyg eglurder yn y polisi cenedlaethol.
5. Er bod dros hanner yr awdurdodau cynllunio wedi cynnwys polisi ar y Gymraeg yn eu cynlluniau datblygu ac er bod arfer da yn bodoli, cyfyng ac arwynebol yw'r polisiau mewn rhai achosion. Ymhellach i hynny, nid yw pob awdurdod wedi cyhoeddi canllaw cynllunio atodol i roi arweiniad pellach ar y polisi.
6. Mae'r nifer o asesiadau effaith ieithyddol a gynhaliwyd ar geisiadau cynllunio unigol yn isel yn y mwyafrif o awdurdodau. Mae hynny'n awgrymu nad yw'r polisiau yn cael eu gweithredu'n llawn mewn rhai ardaloedd.